Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ganolfan Addysg Yr Wyddfid
# Llwynon Road
# Pen y Gogarth
# Llandudno
# LL30 2QF

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work
Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard
Investors in People Gold

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 19/03/2013**

## Cyd-destun

Agorodd Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) Yr Wyddfid ym Medi 2009. Mae'r UCD yn un o bump UCD ar wahân yn awdurdod lleol Conwy. Mae pum aelod staff addysgu yn y ganolfan, gan gynnwys pennaeth dros dro'r ganolfan. Mae chwe aelod o staff cymorth a chlerc yr ysgol. Mae pennaeth dros dro'r ganolfan wedi bod yn ei swydd ers Mai 2012 yn dilyn secondiad y pennaeth blaenorol.

Mae Yr Wyddfid yn darparu ar gyfer disgyblion 11-14 oed sydd mewn perygl o gael eu gwahardd o ysgolion prif ffrwd, a'r rheini y mae angen lleoliadau addysg tymor hwy arnynt heblaw am yr yn ysgol.

Mae 19 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae anghenion dysgu ychwanegol gan bob un o'r disgyblion, gan gynnwys anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad. Mae tua 75% o'r disgyblion yn cael prydau ysgol am ddim. Saesneg yw iaith gyntaf pob un o'r disgyblion sy'n mynychu'r UCD ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw blant sy'n derbyn gofal yn yr UCD.

Yn ddiweddar, agorodd yr UCD uned ategol yn Douglas Road o fewn chwe milltir i'r prif safle. Mae hon yn darparu ar gyfer pedwar disgybl sy'n mynychu'r UCD am awr bob dydd, am dri diwrnod yr wythnos. Caiff y ganolfan hon ei staffio gan un athro ac un cynorthwyydd addysgu.

Nid yw'n briodol cymharu'r safonau y mae'r disgyblion yn eu cyflawni yn yr UCD â chyfartaleddau cenedlaethol, nac i ddadansoddi tueddiadau grwpiau dros amser oherwydd natur ac ystod anghenion dysgu'r disgyblion.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr UCD** | **Anfoddhaol** |
| **Rhagolygon gwella'r UCD** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yn UCD Yr Wyddfid yn anfoddhaol oherwydd:

- nid yw llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd yn ddigon da;
- bod ymddygiad aflonyddgar iawn lleiafrif sylweddol o'r disgyblion yn effeithio'n ddifrifol ar safonau yn yr UCD;
- bod y perthnasoedd gwael iawn rhwng llawer o'r disgyblion yn creu amgylchedd ymosodol nad yw'n annog dysgu;
- nid yw arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu gwybodaeth yn effeithiol am berfformiad, presenoldeb a gwaharddiadau'r disgyblion;
- bod yr UCD wedi gweld newidiadau sylweddol a niferus i staffio a'r ddarpariaeth mewn cyfnod byr, gan arwain at ansicrwydd i'r staff a'r disgyblion; ac
- nid yw staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Er enghraifft, gall fod nifer o staff gydag un disgybl yn y dosbarth, tra bod un aelod o staff yn delio â nifer o ddisgyblion sy'n gwrthod mynychu gwersi.

### Rhagolygon gwella

Bernir bod gan UCD Yr Wyddfid ragolygon gwella digonol oherwydd:

- megis dechrau cael eu datblygu y mae llawer o fentrau pwysig a meysydd i weithredu arnynt;
- nid yw hunanarfarnu wedi'i ymgorffori'n llawn ar draws yr UCD ac nid yw'n ystyried barnau pob un o'r rhanddeiliaid;
- nid yw rheolwyr yn defnyddio data'n ddigon da i ddadansoddi, cynllunio a monitro perfformiad;
- nid yw rolau a chyfrifoldebau uwch aelodau staff yn ddigon clir eto; a
- bod y pwyllgor rheoli'n cydnabod yr heriau'n llawn ac wedi dechrau darparu'r cymorth sydd ei angen i sicrhau gwelliant.

## Argymhellion

A1 Gweithredu strategaethau ymddygiad effeithiol ar draws yr UCD sy'n sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i ddysgu

A2 Gwneud yn siwr bod yr holl ddisgyblion yn gwella eu medrau llythrennedd, rhifedd a chyfathrebu

A3 Datblygu proses systematig o fonitro ac arfarnu perfformiad disgyblion ymhellach

A4 Darparu gwybodaeth briodol i'r pwyllgor rheoli am ymddygiad, presenoldeb a safonau yn yr UCD

A5 Rheoli perfformiad staff yn systematig

A6 Dylai arweinwyr ddefnyddio staff yn briodol i helpu disgyblion fynychu gwersi

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr UCD. Bydd yr UCD yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr UCD ryw 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Safonau: Anfoddhaol**

Mae ystod o anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad gan y disgyblion yn yr UCD.

Daw disgyblion i'r ysgol heb fawr o hyder fel dysgwyr, heb fod yn gallu rheoli eu hymddygiad yn dda, ac mae hanes o bresenoldeb gwael gan lawer ohonynt. Dros gyfnod, mae llawer yn bodloni'r targedau dysgu unigol a osodwyd gan y staff. Ceir enghreifftiau da o ddisgyblion unigol yn gwneud digon o gynnydd i'w galluogi i ddychwelyd i ysgolion prif ffrwd. Y llynedd, cafodd 37% o ddisgyblion oedd yn mynychu'r UCD eu hailintegreiddio'n llwyddiannus mewn ysgolion prif ffrwd.

Mae ychydig o ddisgyblion yn cadw eu sylw ar y dasg trwy gydol y wers, er gwaethaf ymddygiad gwael iawn disgyblion eraill. Mae'r ychydig ddisgyblion hyn yn gwrando'n ofalus ar gyfarwyddiadau, yn dangos balchder yn eu gwaith ac yn cofio dysgu blaenorol. Maent yn gwella'u medrau llythrennedd a rhifedd ac yn defnyddio medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda i gofnodi gwybodaeth a chyflwyno'u gwaith. Mae ychydig o ddisgyblion yn mwynhau darllen, ac maent wedi gwneud camau mawr o ran gwella'u medrau darllen ers iddynt ymuno â'r UCD.

Fodd bynnag, nid yw ychydig dan hanner y disgyblion yn gwella'u hymddygiad dros gyfnod, ac maent yn gwastraffu'u cyfleoedd i ddysgu. Nid ydynt yn ymddiddori yn y gwersi bob tro, maent yn tarfu ar ddosbarthiadau eraill, yn defnyddio iaith sarhaus ac yn dewis a dethol pa dasgau maent yn eu cwblhau. Mae'r ymddygiad hwn yn ei gwneud yn anodd tu hwnt i'r staff a'r disgyblion fwrw ymlaen â'u gwaith. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion hyn yn gwneud gymaint o gynnydd ag y dylent wneud. Er enghraifft, nid ydynt yn gwella'u medrau llythrennedd a rhifedd nac yn dysgu sut i weithio gyda disgyblion eraill neu ochr yn ochr â disgyblion eraill.

Mae Cymraeg ar amserlen bob un o'r disgyblion. Mae'r rhai sy'n ymddwyn yn dda yn ennill dealltwriaeth briodol o ddiwylliant Cymru ac yn gwneud cynnydd da o ran datblygu'u medrau iaith Gymraeg.

**Lles: Anfoddhaol**

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn yr UCD yn datblygu dealltwriaeth glir o bwysigrwydd bod yn iach. Nid yw'r ddealltwriaeth hon, fodd bynnag, yn dylanwadu bob amser ar addasrwydd y bwyd a'r diodydd maent yn eu cludo i mewn i'r UCD, na'u hymddygiad. Mae ychydig o ddisgyblion yn ymwneud ag ymddygiad mentrus er eu bod yn cael cyngor da gan y staff. Er enghraifft, maent yn dringo ar siliau ffenestri, yn torri ffenestri ac yn bygwth disgyblion eraill neu'n ymosod arnynt. Mae'r ymddygiad hwn yn creu perygl i'r disgyblion.

Mae llawer o'r disgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod dda o weithgareddau addysg awyr agored, gan gynnwys dringo creigiau a rhaglen cerdded cŵn. Fodd bynnag, mae'r merched yn gwrthod cymryd rhan, ac maent yn colli allan ar ymarfer corff iach a rheolaidd o'r herwydd.

Mae agwedd gadarnhaol at addysgu gan ychydig o'r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw ychydig dan hanner y disgyblion yn ymddiddori'n llawn yn y gwersi, nid ydynt yn dilyn cyfarwyddiadau na'n cydweithredu â staff a disgyblion eraill. Oherwydd rheolaeth anghyson yr UCD ar ymddygiad, nid yw'r disgyblion hyn yn deall canlyniadau'u gweithredoedd nac yn cymryd cyfrifoldeb amdanynt. Bu 29 o ddigwyddiadau difrifol ers Medi. O ganlyniad, nid yw lleiafrif o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr UCD.

Mae presenoldeb lleiafrif sylweddol o'r disgyblion yn wael. Y rheswm am hyn yw diffyg ymgysylltiad a nifer uchel y gwaharddiadau, sydd wedi cynyddu dros y tair blynedd diwethaf. Nid yw lleiafrif sylweddol o ddisgyblion yn cyrraedd gwersi'n brydlon bob amser, ac maent yn gadael yr ystafelloedd dosbarth yn aml. O ganlyniad, maent yn colli gwaith ac yn ei chael yn anodd dal i fyny â'u cyfoedion pan fyddant yn dychwelyd. Mae eu habsenoldebau hir yn effeithio ar eu gallu i gysylltu â phobl eraill a chynnal trefn weithio. Caiff hyn effaith negyddol bellach ar eu lles a'u hunan-barch.

Nid oes digon o gyfleoedd yn cael eu cynnig i'r disgyblion gyfranogi mewn penderfyniadau ynglŷn â'r UCD. Nid oes cyngor ysgol yn bodoli. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i'r disgyblion gael ymdeimlad o berthyn i'r UCD, neu i ddysgu sut i drafod, gwrando a gwerthfawrogi barnau pobl eraill.

Mae'r disgyblion yn elwa o gymorth priodol pan fyddant yn symud ymlaen i'r cyfnod allweddol nesaf. O ganlyniad, mae'r disgyblion a rhieni'n rheoli'r symud hwn yn fwy hwylus.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r UCD yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n diwallu anghenion y rhan fwyaf o'r disgyblion.

Caiff y disgyblion eu hasesu'n ofalus pan fyddant yn dod i mewn i'r UCD, ac mae'r rhai y mae angen iddynt wella'u medrau llythrennedd a rhifedd yn cael help priodol wedi'i dargedu gyda'u darllen a chymhwyso rhif. Mae disgyblion yn cael cyfle da i ddefnyddio TGCh, ac mae'r staff yn ei defnyddio'n dda i ennyn diddordeb y disgyblion. Fodd bynnag, nid oes dull cytûn gan yr UCD o ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd neu TGCh ar draws y cwricwlwm.

Yn ddiweddar, mae'r UCD wedi ehangu ei darpariaeth i gynnig hyfforddiant unigol i ddisgyblion â'r anghenion mwyaf cymhleth nad ydynt yn mynychu ysgol. Mae'r disgyblion hyn yn cael ychydig iawn o oriau, gyda chytundeb rhieni neu ofalwyr ac ystod o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw. Mae'r UCD yn bwriadu cynyddu'r oriau hyn pan fydd disgyblion unigol yn barod i ymgysylltu am gyfnodau amser hwy. Fodd bynnag, nid oes trefniadau ffurfiol na chynlluniau ysgrifenedig i reoli'r cynnydd hwn yn y ddarpariaeth.

Mae rhaglen ABCh addas ar waith sy'n cynnwys addysg rhyw a chyfleoedd i wella ymddygiad.

Mae rhaglen gymorth effeithiol gan yr UCD i sicrhau bod disgyblion yn symud yn hwylus i leoliadau eraill.

Caiff y disgyblion lawer o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau heriol a magu diddordebau newydd, gan gynnwys beicio, dringo creigiau, cyfeiriadu a chanŵio.  Fodd bynnag, nid oes digon o ddewisiadau sy'n apelio'n benodol at ferched, ac mae hyn yn cael effaith negyddol ar eu cyfraddau cyfranogi.

Mae cerddoriaeth yn gryfder, ac mae'r disgyblion yn elwa o gyfleoedd i gael hyfforddiant mewn grwpiau bach a chwarae amrywiaeth o offerynnau.  Mae prosiectau i ennyn diddordeb y dysgwyr mwy agored i niwed, fel cerdded cŵn, dawnsio stryd a garddio, yn llwyddiannus.

Er nad yw'n ofyniad statudol, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd da i ddatblygu a defnyddio'u medrau iaith Gymraeg a dysgu am ddiwylliant Cymru.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo lleihau gwastraff drwy ailgylchu, compostio a defnyddio casgenni dŵr yn llwyddiannus.  Caiff y disgyblion eu hannog hefyd i edrych ar syniadau'n ymwneud â diwylliannau eraill, ac i ddatblygu dealltwriaeth o bobl o wledydd eraill.

**Addysgu:  Digonol**

Mae mwyafrif yr addysgu yn ddigonol.  Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon yn dibynnu gormod ar daflenni gwaith.  Nid ydynt yn cynllunio digon o dasgau gwahanol neu fwy heriol, nac yn canolbwyntio ar fedrau allweddol.  Nid yw iaith anweddus yn cael ei rhwystro, a chaniateir i ymddygiad gwael gynyddu nes bod gwrthdaro'n digwydd.  Nid ydynt yn defnyddio'r system wobrwyo'n gyson i ddelio'n ddigon effeithiol ag ymddygiad gwael.  Nid yw disgyblion yn cael eu hannog i hunanasesu na myfyrio ar eu dysgu neu eu hymddygiad.

Yn y lleiafrif o wersi lle mae'r addysgu yn dda, mae'r athrawon yn gweithio'n dda gyda staff cymorth ac yn cynllunio gwersi'n ofalus.  Maent yn cysylltu'n dda â'r disgyblion.  Gwnânt yn siŵr bod gwersi'n cynnwys strwythur effeithiol er mwyn darparu ystod briodol o weithgareddau a thasgau i'r disgyblion.  Mae'r athrawon hyn yn gosod amcanion dysgu clir ac yn rhoi cyfarwyddiadau clir a chryno i'r disgyblion, ynghyd ag adborth defnyddiol.  Maent yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu neu atgyfnerthu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh.  Maent yn defnyddio ystod briodol o adnoddau a gweithgareddau i gynnal diddordeb y disgyblion.

Ar draws yr UCD, nid yw cynlluniau gwersi'n cysylltu'n ddigon da â'r targedau academaidd yng nghynlluniau addysg unigol y disgyblion.

Nid yw'r dull o reoli ymddygiad yn gyson ar draws yr UCD.  Ar ormod o achlysuron, er gwaethaf cynllunio da a llwyddo i ennyn diddordeb y disgyblion, mae disgyblion o ddosbarthiadau eraill sy'n gwrthod gweithio yn tarfu ar wersi.  Nid yw'r gwersi'n rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ymarfer y strategaethau y mae angen iddynt eu dysgu er mwyn bodloni'u targedau ymddygiad.

Mae'r UCD yn cynnal profion ar ddarllen a sillafu'r disgyblion pan fyddant yn dod i mewn i'r UCD, ac mae hyn yn cael ei fonitro bob tymor.  Fodd bynnag, nid yw'r athrawon yn defnyddio asesu'n effeithiol i lywio'u cynllunio o ddydd i ddydd ac i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion unigol.  Mae llyfrau'r disgyblion yn cael eu marcio'n

rheolaidd a rhoddir rhywfaint o adborth priodol i'r dysgwr. Nid yw'r marcio, fodd bynnag, yn helpu'r disgyblion i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith bob amser.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae'r UCD yn nodi anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion yn effeithiol, ac mae llawer o ddisgyblion yn cael eu cyfeirio i gael cymorth ychwanegol, fel therapi lleferydd ac iaith. Fodd bynnag, er bod pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant mewn anawsterau lleferydd ac iaith, nid yw'r arbenigedd hwn wedi cael ei ddefnyddio i gynorthwyo disgyblion unigol yn ddigon da mewn gwersi. Mae'r cynlluniau addysg unigol wedi'u seilio ar asesu trylwyr ac yn cynnwys targedau penodol y gellir eu mesur. Fodd bynnag, nid yw'r holl adolygiadau o gynnydd yn erbyn y targedau hyn yn cael eu cwblhau ar amser.

Mae staff yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd i'r disgyblion fyfyrio ar ffyrdd iach o fyw a dysgu amdanynt. Mae hyn yn cynnwys gwaith ar ysmygu, cyffuriau ac ymarfer corff. Mae'r UCD yn gwneud defnydd da iawn o ystod eang o wasanaethau arbenigol i roi cyngor a chymorth o ansawdd da i'r disgyblion y mae ganddynt bryderon a materion sy'n effeithio ar eu bywydau. Caiff datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion, a'u hunan-barch, ei ddatblygu'n anghyson ar draws yr UCD. Mae ychydig o'r staff yn rhoi sylw da iawn i'r materion hyn. Ond nid yw hyn yn wir ym mhob achos, fodd bynnag.

Er bod polisi gwrth-fwlio cynhwysfawr yn ei le, nid yw hwn yn cael ei weithredu'n gyson gan bob aelod o staff. Cynhelir asesiad risg o ymddygiad pob disgybl, ac mae'r staff yn cael arweiniad clir ar y dull gorau i reoli ymddygiadau penodol. Fodd bynnag, mae'r asesiadau hyn yn cynnwys brawddegau gosod nad ydynt wedi'u teilwra ar gyfer disgyblion unigol, ac nid ydynt yn cynnwys y manylion penodol i gynorthwyo staff.

Mae'r rhaglen rheoli ymddygiad yn cael ei chynllunio'n ofalus i wella ymddygiad a chodi hunan-barch. Mae cysylltiad agos rhwng y rhaglen hon â system wobrwyo sy'n rhoi'r cyfle i ddisgyblion wneud gweithgareddau ychwanegol a mynd ar wibdeithiau o ddiddordeb. Nid yw'r system yn cael ei gweithredu'n effeithiol nac yn gyson, fodd bynnag. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn deall yn glir beth sydd raid iddynt ei wneud i wella'u hymddygiad, a pha ymddygiad sy'n briodol ac amhriodol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn peri unrhyw bryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r UCD yn darparu amgylchedd cefnogol a chroesawgar i'r rhan fwyaf o ddisgyblion. Fodd bynnag, mae ymddygiad gwael lleiafrif sylweddol o ddisgyblion yn gwneud yr amgylchedd yn anodd i ychydig o ddysgwyr sy'n fwy agored i niwed.

Mae pob un o'r disgyblion yn cael mynediad da at y cwricwlwm a chyfleoedd eraill sy'n cael eu cynnig. Er bod polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i ddelio ag unrhyw fath o wahaniaethu, ychydig iawn o'r staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar gydraddoldeb. O ganlyniad, mae'r trefniadau i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn anghyson ar draws y ddarpariaeth.

Mae'r adeilad yn ddiogel, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn cael gofal da, ac mae'n ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr. Darperir adnoddau da sy'n cynnig amgylchedd dysgu ysgogol i ddiwallu anghenion y disgyblion. Mae hyn yn cynnwys offer TGCh priodol ym mhob un o'r ystafelloedd dosbarth. Mae arddangosfeydd, yn yr ystafelloedd dosbarth a'r coridorau, yn ddeniadol ac yn llawn gwybodaeth, ac maent yn gwella dysgu'r disgyblion.

Mae'r UCD ar safle hen ysgol gynradd, ac mae yno iard eithaf mawr lle gall y disgyblion ddefnyddio'r amgylchedd dysgu awyr agored yn llwyddiannus.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Ym Medi 2012, newidiodd yr UCD yn ganolfan sy'n darparu ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 3 yn unig. Mae'r newidiadau mawr diweddar o ran swyddogaeth a staffio'r UCD wedi achosi aflonyddu amlwg. Fodd bynnag, mae pennaeth dros dro'r ganolfan, y dirprwy dros dro a phob un o'r staff yn dechrau datblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer y dyfodol. Adlewyrchir hyn yn agwedd gadarnhaol ac ymrwymiad pob aelod o staff tuag at y disgyblion.

Nid yw'r strategaethau newydd a gyflwynwyd gan uwch arweinwyr wedi'u rhoi ar waith yn llawn eto, ac nid yw eu heffaith wedi'i harfarnu. Nid yw pob un o'r polisïau a'r cynlluniau wedi'u diweddaru'n briodol, ac nid ydynt yn canolbwyntio digon ar wella safonau disgyblion. Mae cyflymder a nifer y newidiadau wedi ei gwneud hi'n anodd eu cyflwyno, ac o ganlyniad cyfyngedig fu eu llwyddiant mewn rhai achosion. Mae hyn wedi creu ansicrwydd ymhlith y staff a'r disgyblion.

Mae arweinwyr yn yr UCD yn casglu data am bresenoldeb, gwaharddiadau a pherfformiad disgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r wybodaeth werthfawr hon yn effeithiol i nodi tueddiadau a gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr.

Mae'r pennaeth dros dro yn llunio adroddiadau bob tymor i'r pwyllgor rheoli. Nid yw'r adroddiadau hyn, fodd bynnag, yn cynnwys digon o wybodaeth ddefnyddiol. O ganlyniad, nid yw'r pwyllgor rheoli'n glir ynghylch perfformiad a thueddiadau o ran cynnydd y disgyblion, presenoldeb, gwaharddiadau ac ansawdd yr addysgu.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r broses hunanarfarnu yn ei dyddiau cynnar o hyd yn yr UCD. Roedd yr adroddiad hunanarfarnu a gwblhawyd yn llwyddiannus ar gyfer yr arolygiad hwn yn nodi nifer o feysydd i'w gwella, gan gynnwys presenoldeb a gwaharddiadau. Fodd bynnag, roedd yr adroddiad yn rhy optimistaidd mewn rhai meysydd pwysig, ac nid oedd yn arfarnu effaith rhai strategaethau yn glir. Er bod pob aelod o staff wedi chwarae rhywfaint o ran yn y broses hunanarfarnu, ni chafodd nifer o randdeiliaid allweddol a sefydliadau partner eu cynnwys.

Nid yw'r data sy'n cael ei gasglu gan yr UCD yn cael ei arfarnu'n ddigon da na'i ddefnyddio'n systematig i wella deilliannau a'r ddarpariaeth. Mae hyn yn golygu nad yw'r UCD a'r pwyllgor rheoli'n gallu asesu ansawdd presennol y ddarpariaeth yn gywir a gwneud cynlluniau realistig ar gyfer gwella.

Mae cynllun datblygu'r UCD yn nodi nifer o gamau priodol i fynd i'r afael â blaenoriaethau ar gyfer gwella. Er enghraifft, roedd datblygu uned ategol yn Douglas Road yn ymgais i leihau nifer y gwaharddiadau yn yr UCD a darparu'n fwy effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun yn nodi blaenoriaethau ar gyfer gweithredu, ac mae hynny'n arwain at ormod o fentrau yn cael eu rhoi ar waith ar y tro. Mae hyn, gyda'r newidiadau staff sylweddol, wedi arwain at amserlen afrealistig ar gyfer newid.

Mae'r pennaeth dros dro wedi cyflwyno proses rheoli perfformiad ar gyfer pob aelod o staff yn yr UCD. Mae pob athro wedi cael ei arsylwi o leiaf unwaith gan bennaeth dros dro'r ganolfan. Fodd bynnag, mae'r trefniadau gwerthfawr hyn yn newydd iawn, ac nid yw'r rhan fwyaf o'r staff wedi defnyddio'r arsylwadau a thargedau gwella i lywio'u haddysgu eto.

Mae pob aelod o staff yn cael hyfforddiant o ansawdd da a ddarperir o fewn yr awdurdod lleol a thu allan. Fodd bynnag, yn sgil colli rhai aelodau staff profiadol, mae nifer o fentrau cenedlaethol wedi arafu neu wedi dod i ben yn gyfan gwbl. Er enghraifft, daeth y wobr ysgolion iach a oedd yn llwyddiannus yn flaenorol i ben pan aeth aelod allweddol o'r staff ar secondiad am ddwy flynedd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r UCD yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o asiantaethau a phartneriaid gwahanol. Drwy'r partneriaethau mwyaf datblygedig, mae deilliannau a lles y disgyblion yn gwella gryn dipyn. Mae'r UCD wedi datblygu cysylltiadau cadarn ac effeithiol gyda phob un o'r ysgolion uwchradd yn yr awdurdod. Mae hyn yn golygu bod yr UCD yn gallu ymateb yn gyflym i gefnogi anghenion dysgwyr, ceisio ailintegreiddio neu osgoi gwaharddiad parhaol. Mae parch mawr i'r UCD yn yr ystyr hwn ymhlith yr ysgolion y mae'n gweithio gyda nhw.

Mae partneriaethau effeithiol gydag asiantaethau fel y gwasanaethau iechyd meddwl a'r gwasanaethau cymdeithasol yn golygu bod yr UCD yn gallu darparu pecynnau cymorth unigol i ddisgyblion. O ganlyniad i'r cymorth hwn, mae'r UCD yn gallu cynnal lleoliadau rhai disgyblion heriol iawn y mae ganddynt nifer o anghenion cymdeithasol ac addysgol ychwanegol. Mae'r UCD wedi gwneud defnydd da iawn o brosiect anogaeth a ariennir yn allanol i ddatblygu profion gwaelodlin effeithiol a grŵp anogaeth o fewn yr UCD.

Fodd bynnag, mae rhai partneriaethau'n llai effeithiol. Mewn nifer fach iach o achosion, nid yw disgyblion wedi cael y cymorth sydd ei angen arnynt i wneud cynnydd yn ddigon cyflym. Er enghraifft, mae disgyblion yn aros yn rhy hir am ymyriadau y sonnir amdanynt yn eu datganiadau.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Mae digon o staff addysgu a staff cymorth yn yr UCD i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol yng nghyfnod allweddol 3. Mae rhai aelodau staff yn brofiadol iawn yn y lleoliad penodol hwn, ac maent wedi cael hyfforddiant arbenigol priodol. Fodd bynnag, mae dros hanner y staff yn newydd neu'n dychwelyd i'r ganolfan. Mae hyn wedi creu angen i ddiweddaru a hyfforddi'r holl staff i safon uchel briodol mewn nifer o feysydd pwysig, fel rheoli ymddygiad ac anghenion dysgu ychwanegol.

Mae eu methiant i reoli ymddygiad heriol yn llwyddiannus yn creu risg sylweddol i welliant yr UCD a deilliannau ar gyfer disgyblion. Nid yw'r arweinwyr yn defnyddio staff yn y ffyrdd mwyaf priodol bob tro i leihau aflonyddu a diogelu'r disgyblion hynny sy'n dymuno dysgu. Er enghraifft, gall fod mwy o staff na disgyblion mewn dosbarth, tra bod un aelod o staff yn cael ei adael i ddelio â disgyblion aflonyddgar ar y coridor.

Mae safon yr adeilad yn uchel iawn. Mae digon o le yno ynghyd ag ystafelloedd dosbarth cyfforddus. Mae'r iard yn fawr ac yn galluogi'r disgyblion i chwarae yn yr awyr agored, mwynhau amserau egwyl a chymryd rhan mewn gemau tîm.

Yn ddiweddar, fe wnaeth yr awdurdod lleol ddirprwyo cyllideb sylweddol i'r UCD er mwyn i newidiadau gael eu gwneud i'r adeilad ac i ddiweddaru a datblygu systemau TGCh. Gwariwyd yr adnoddau hyn yn ddoeth gan yr uwch arweinwyr, ac maent yn cael eu defnyddio'n dda gan bob aelod o staff i ddatblygu strategaethau addysgu a dysgu newydd.

Mae'r awdurdod lleol wedi dechrau ail-fuddsoddi'r cyllid yn llwyddiannus yn yr UCD, cyllid a fyddai'n cael ei dalu'n flaenorol am leoliadau y tu allan i'r sir. Fodd bynnag, o ystyried yr anghysonderau o ran rheoli ymddygiad ac effaith hyn ar ddeilliannau, mae'r tîm arolygu yn barnu bod yr UCD yn cynnig gwerth anfoddhaol am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Roedd nifer yr ymatebion a dderbyniwyd yn rhy isel i roi barn gynrychioliadol. Fodd bynnag, ystyriwyd y rhain yn ystod yr arolygiad.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Ymatebodd naw o'r pedwar ar bymtheg o ddisgyblion i'r holiadur, ac ar y cyfan maent yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r UCD, ac yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda. Mae'r mwyafrif yn teimlo bod ganddynt rywun i siarad â nhw os ydynt yn pryderu. Cytuna mwyafrif y disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel a bod yr UCD yn eu haddysgu i wella'u hiechyd. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo bod yr UCD yn delio'n dda â bwlio, bod pobl yn gwrando arnynt, a'u bod yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb. Credant eu bod yn cael eu hannog i barchu cefndiroedd pobl eraill a bod eu cefndir hwythau'n cael ei barchu. Maent yn teimlo bod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer. Fodd bynnag, nid oedd dros hanner y disgyblion a ymatebodd yn cytuno bod y disgyblion yn ymddwyn yn dda.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Alec Clark | Arolygydd Cofnodol |
| Claire Yardley | Arolygydd Tîm |
| Justine Barlow | Arolygydd Lleyg |
| Trefor Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mark Peters | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau ADY

**ADDLl**:  anawsterau dysgu dwys a lluosog

**ADHD**:  anhwylder gorfywiogrwydd diffyg canolbwyntio

**ADP**:  anawsterau dysgu penodol, yn cynnwys dyslecsia

**ADY**:  anghenion dysgu ychwanegol

**ASA**:  Anhwylder y Sbectrwm Awtistig, sy’n cynnwys Syndrom Asperger

**AYA**:  adnodd ychwanegol yr athro

**AYECh**:  Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol

**CY**:  Cod Ymarfer

**NAS**:  nam amlsynhwyraidd

**NC**:  nam ar y clyw

**NG**:  nam ar y golwg